# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Warren Davies Dental Care / Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 21 Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy:


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-236-9



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom............................................................................................ 7

Ansawdd profiad y claf ........................................................................................8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ....................................................................12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth..............................................................18

4. Beth sydd nesaf? ..................................................................................... ...21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol...................................................... 21

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad........223

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .............. **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad C – Cynllun gwella..........................................................................24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

Sicrhau bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

# Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: rydym yn gweithredu mewn modd agored a gonest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol yn ein hymagwedd.

# Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

| | |
|---|---|
| Rhoi sicrwydd: | Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal. |
| Hybu gwelliant: | Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu. |
| Dylanwadu ar bolisi a safonau: | Defnyddio'r hyn rydym yn dod o hyd iddo i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arfer. |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Warren Davies Dental Care yn 13 Heol Llwynhendy, Llwynhendy, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA14 9DP o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 21 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir mwy o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Warren Davies Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Wrth gyflenwi gofal a thriniaethau deintyddol roedd y staff yn gweithredu gydag agwedd urddasol a chwrtais.

Roedd y practis yn cael ei reoli'n dda, a'r llinellau atebolrwydd yn eglur. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cleifion, a chanmoliaeth i'r gwasanaethau a ddarperir yn y practis. Fodd bynnag, daethom ar draws peth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Trin cleifion gyda pharch ac urddas
- Roedd yr offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Roedd y staff yn cydweithio'n dda fel tîm, ac y mwynhau eu gwaith yn y practis

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhannau penodol o'r amgylchedd mewnol
- Y modd y dogfennir y risgiau o ganser y geg a'r cyfiawnhad dros radiograffau
- Y modd y diogelir cofnodion y cleifion, cyfarpar argyfwng a meddyginiaethau.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Warren Davies Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardaloedd Llwynhendy / Llanelli. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy’n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gan y practis dîm staff sy’n cynnwys pedwar deintydd, dau therapydd deintyddol, pedair nyrs ddeintyddol, tair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol GIG a phreifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu profiadau o ansawdd da i'r cleifion. Canfuom fod y practis yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol iawn.

Roedd y cleifion yn fodlon ar y lefelau o driniaeth a gofal a ddarperir yn y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 19 o holiaduron wedi'u cwblhau; derbyniwyd y mwyafrif o holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers amser hir (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion yno ers dros ddwy flynedd). Ar y cyfan, roedd yr adborth a gafwyd yn yr holiaduron yn gadarnhaol iawn

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Dosbarth cyntaf, yn bendant"*
>
> *"Credaf fod y practis deintyddol hwn yn gwasanaethu'r cleifion a'r staff yn y modd gorau posibl "*
>
> *"Rwy'n fwy na hapus gyda'r practis hwn. Caf groeso a thriniaeth dda bob tro yr af yno".*

### Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth ynghylch hybu iechyd ar gael yn hwylus yn y practis, a oedd yn annog y cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd y geg a'u llesiant eu hunain. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd arwyddion 'dim smygu' wedi'u lleoli mewn mannau strategol y tu mewn i'r adeilad, a oedd yn dangos bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch safleoedd di-fwg.

Gwelsom dystiolaeth fod hanesion meddygol y cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd y sylwadau a wnaed ynglŷn â'r staff yn cynnwys y canlynol:

> *"Bob amser yn gwrtais a chymwynasgar"*
>
> *"Mae'r staff deintyddol a staff y dderbynfa yn ardderchog "*

Roedd y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol, lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth, yn cael eu cadw ar gau yn ystod eu hapwyntiadau ymgynghori i gynnal preifatrwydd ac urddas. .

Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat, i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Sylwom ar gleifion yn cael eu trin mewn ffordd garedig a chwrtais gan y staff. Roedd y staff yn adnabod eu cleifion yn dda, gan fod cynifer ohonynt wedi eu cofrestru yn y practis ers amser hir.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddo. Gwnaeth un o'r cleifion sylw yn yr holiadur fel a ganlyn:

> *"Rhoesant wybodaeth fanwl imi, bob cam o'r ffordd trwy'r driniaeth, a gwnaeth hynny imi deimlo'n fwy hyderus ynghylch mynd at y deintydd yn y dyfodol"*

Roedd posteri, a osodwyd mewn mannau strategol o amgylch yr adeilad, yn cynnwys gwybodaeth am brisiau'r triniaethau. Roedd yr wybodaeth honno ar gael yn hwylus hefyd ar wefan y practis, ynghyd â gwybodaeth am yr ystod o wasanaethau a ddarperir yn y practis. Câi manylion am oriau agor y ddeintyddfa eu harddangos yn briodol. Roedd gan y practis daflen / llyfryn gwybodaeth y gallai cleifion fynd ag ef adref gyda hwy.

Yn yr holiaduron, dywedodd y cleifion a oedd wedi cael triniaeth yn y practis eu bod wedi cael eglurhad o'r gost bob amser cyn cael y driniaeth, a'u bod yn deall sut y cyfrifwyd cost y driniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd cyfran sylweddol o'r wybodaeth a oedd ar gael yn y practis yn ddwyieithog. Dywedodd y staff wrthym fod dau o'r rhai a gyflogir gan y practis yn siaradwyr Cymraeg.

Dywedodd bron bob claf a gwblhaodd holiadur y gallai siarad â'r staff yn ei iaith ddewisol bob amser; roedd hyn yn wir am yr holl gleifion nad oeddent yn siarad Cymraeg a phob claf Cymraeg ei iaith, heblaw am un a ddywedodd mai weithiau yn unig y gallai siarad â'r staff yn ei iaith ddewisol.

## Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y darperir gofal a thriniaethau i'r cleifion mewn modd amserol. Roedd poster yn yr ystafell aros yn atgoffa cleifion i roi gwybod i staff os oeddent wedi bod yn aros am 20 munud. Roedd rhif ffôn y practis yn cael ei arddangos yn yr adeilad a hefyd ar wefan y practis.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau pe bai arnynt angen sylw deintyddol ar frys. Roedd manylion rhifau cyswllt mewn argyfwng y tu allan i oriau yn cael eu harddangos ger y brif fynedfa, a gellid gweld y rhain o'r tu allan i'r adeilad.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom dystiolaeth yn y cofnodion fod hanesion meddygol y cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod pob apwyntiad.

Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur yn cadarnhau hynny trwy ddatgan bod y deintyddion yn eu holi ynghylch eu hanes meddygol cyn dechrau unrhyw driniaeth ddeintyddol. Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael eu hannog i ofalu am eu hiechyd y geg eu hunain, rhwng ac ar ôl apwyntiadau.

Ar gyfer y cleifion, darperid un toiled a oedd yn addas i'r anabl ac ar gyfer y ddau ryw. Roedd y toiled yn lân a hylan, gydag arwydd eglur yn tynnu sylw ato. Gosodwyd poster yn y toiled i atgoffa pobl i olchi eu dwylo.

## Hawliau pobl

Roedd dwy o’r tair ystafell driniaeth ddeintyddol ar lawr daear yr adeilad, ac roedd toiled y cleifion hefyd ar y llawr hwnnw. Roedd yn bosibl i gleifion sy’n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i’r adeilad, er bod y gofod braidd yn gyfyng, oherwydd mai tŷ teras wedi ei drawsnewid yw’r adeilad. Lleolwyd y drydedd ystafell triniaeth ddeintyddol ar y llawr uchaf, a chafwyd mynediad iddi ar hyd grisiau serth, er bod canllawiau wedi eu gosod i gynorthwyo cleifion i’w dringo. Esboniodd rheolwr y practis na fyddai cleifion a chanddynt anawsterau symudedd neu y mae angen cymorth arnynt gyda’u symudedd, yn derbyn triniaeth ar y llawr cyntaf.

Nid oedd lleoedd parcio dynodedig ar gael, ond roedd modd parcio ar y stryd yn y cyffiniau.

Roedd y practis yn gweithredu polisi ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymateb i gŵynion ynglŷn â thriniaethau preifat a thriniaethau’r GIG. Câi gwybodaeth i gleifion am sut i fynegi pryder (neu gŵyn), ei harddangos yn y fynedfa a hefyd ar wefan y practis. Roedd y practis hefyd yn cofnodi unrhyw bryderon a fynegwyd ar lafar, a gwelsom dystiolaeth fod y practis yn gweithredu yn brydlon a thrylwyr ynglŷn â phryderon o’r fath. Nid oedd y practis wedi cael unrhyw gŵyn ffurfiol ers cryn amser. Cafwyd cadarnhad gan reolwr y practis yr ystyrir unrhyw bryder neu gŵyn yn fater difrifol sy’n galw am ymateb priodol a buan. Dywedodd y mwyafrif o’r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gŵyn ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol, pe bai angen iddynt wneud hynny.

Roedd tua thri chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur yn dweud bod y practis yn gofyn iddynt yn achlysurol am eu barn am y practis deintyddol, er enghraifft trwy gyfrwng holiadur.

Roedd modd i gleifion ddarparu adborth ynglŷn â’r practis mewn nifer o wahanol ffyrdd; naill ai ar lafar, trwy wneud cwyn, mewn arolygon boddhad, ar-lein, neu trwy gyfrwng blwch sylwadau yn yr ystafell aros. Canfuom fod y practis yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon / awgrymiadau. Roedd y cofnodion a welwyd yn tystio bod y cleifion, yn gyffredinol, yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y practis.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Roedd proses gynhwysfawr ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn modd diogel ac effeithiol.

Roedd ystod o gyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, pe digwyddai i glaf gael ei gymryd yn ddifrifol wael.

Canfuwyd bod angen gwneud rhai gwelliannau adferol mewn perthynas â'r amgylchedd ffisegol yn yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol. Roedd angen gwella'r archwiliadau rheoli heintiau er mwyn gwerthuso'r arferion gwaith a'r amgylchedd.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau priodol i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Gwelsom dystiolaeth fod profion dyfeisiau cludadwy wedi eu cynnal yn unol ag argymhellion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch[1] i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

[1] http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg107.htm

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym yr adolygir yr offer yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n effeithiol yn achos tân.

Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal mewn perthynas â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei wahanu'n briodol, mewn modd diogel ac effeithiol. Canfuom y byddai'n fuddiol diogelu'r biniau storio sydd wrth gefn yr adeilad er mwyn atal lladrad posibl.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glanweithdra'r practis deintyddol. Roedd bron pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Wrth werthuso'r troli argyfwng, sylwyd ar rai eitemau o gyfarpar a oedd wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod am yr eitemau hyn, a bod eitemau newydd wedi eu harchebu i gymryd eu lle, ond nad oedd yr eitemau newydd wedi cyrraedd y practis eto. Canfuom hefyd nad oedd y troli argyfwng, a oedd yn cynnwys y meddyginiaethau brys, yn cael ei storio'n ddiogel. Nid oedd clo ar yr ystafell lle'i cedwid. Argymhellwyd y dylid cadw'r ystafell hon dan glo pan nad oes neb yn ei defnyddio, i leihau'r risg o ladrad. Roedd padiau presgripsiynau yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ladrad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid clymu biniau storio gwastraff clinigol wrth osodiadau sefydlog parhaol, i'w diogelu rhag y posibilrwydd o ladrad.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyfarpar a'r holl stociau darfodus untro yn cael eu gwirio'r rheolaidd i sicrhau nad ydynt wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben.

Rhaid sicrhau diogelwch y cyfarpar a'r meddyginiaethau brys.

## Atal a rheoli heintiau

Buom yn gwerthuso'r ystafell ddadheintio, a chanfuom yn gyffredinol fod yr ymarfer yn ddiogel ac effeithiol. Canfuom y gellid gwella'r llif o offerynnau, a hwyrach y bydd y practis yn dymuno gwerthuso hynny yn y dyfodol. Roedd yr awtoclafau a ddefnyddiwyd yn y practis yn cael eu gwirio'n ddyddiol ac yn wythnosol, a'r profion arnynt yn cael eu dogfennu'n unol â hynny. Ar hyn o bryd ni ddogfennir y broses o lanhau â llaw, ac rydym yn argymell y dylid dechrau

gwneud hynny. Buom yn edrych hefyd ar y tair ystafell triniaeth ddeintyddol, a chanfuom fod rhai gwelliannau yn ofynnol er mwyn atal y posibilrwydd o groes-heintio. Roedd y deunydd selio o amgylch yr arwynebau gwaith wedi dechrau dirywio, a rhai bylchau yn ymddangos o ganlyniad. Yn ychwanegol, mewn un ystafell triniaeth ddeintyddol, roedd y deunydd sy'n gorchuddio'r droriau a'r drysau yn ddiffygiol, ac nid oedd yn darparu rhwystr effeithiol.

Canfuom hefyd, yn un o'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol, fod y dolenni ar ddrysau cypyrddau a droriau wedi dechrau dirywio. Roedd arwyneb y lloriau yn y tair ystafell ddeintyddol yn hawdd i'w glanhau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o groes-heintio. Fodd bynnag, sylwom nad oedd y deunydd llawr mewn dwy o'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol wedi ei selio o amgylch yr ymylon. Yn ystafell triniaeth ddeintyddol 2, roedd toriad yn y deunydd sy'n gorchuddio'r llawr ac roedd angen rhoi sylw i hyn.

Canfuwyd bod angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas ag archwiliadau rheoli heintiau. Rydym yn argymell y dylai'r practis gyflawni archwiliadau rheolaidd i atal a rheoli heintiau fel y pennir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05[2], *Decontamination in primary care dental practices and community dental services* Diwygiad 1, Chwefror 2014

Yr hyn y mae angen ei wella

Selio o amgylch ymylon y gorchuddion lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol

Atgyweirio'r gorchudd llawr yn ystafell triniaeth ddeintyddol 2

Gosod droriau newydd / adnewyddu'r droriau yn ystafell triniaeth ddeintyddol 1

Gosod dolenni newydd / adnewyddu'r dolenni yn ystafell triniaeth ddeintyddol 2

Gweithredu archwiliadau rheoli heintiau prydlon yn unol ag WHTM01-05

Dogfennu'r gwiriadau glanhau â llaw

---

[2] Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05 (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu'r troli argyfwng a chanfuom, yn gyffredinol, ei bod yn cynnwys cyflenwad da ac y byddai modd ei defnyddio mewn argyfwng. Cynhelid gwiriadau rheolaidd ar y cyfarpar a'r meddyginiaethau brys.

Roedd y cywasgyddion a ddefnyddid yn y practis yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd, a gwelsom dystysgrifau yn dystiolaeth o hynny.

Roedd tîm y practis yn cynnwys dau swyddog cymorth cyntaf penodedig a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Roedd pob un o'r staff wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol, a chafodd hyn ei gofnodi yng nghofnodion y staff.

Roedd gan y practis becynnau wrth law i ymdrin ag unrhyw golledion mercwri.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gweithdrefn gan y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant, ac roedd gan y practis gopi o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Roedd polisïau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu hefyd ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed. Yn ystod yr arolygiad, holwyd tri aelod o'r staff ynglŷn â diogelu oedolion, ac roedd pob un ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o'r prif egwyddorion yn y maes hwnnw.

Cafwyd cadarnhad gan reolwr y practis fod pob un o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ynglŷn ag amddiffyn plant a diogelu oedolion.

Roedd y cofnodion yn dangos bod holl aelodau'r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd dyddiad y gwiriad ar gyfer un o'r deintyddion a gyflogwyd yn y practis wedi dod i ben, ac felly nid oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, sy'n pennu y dylid ymgymryd â gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob deintydd yn cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn brydlon.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i bob deintydd gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel y pennir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod gan y practis, at ei gilydd, drefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd ffeil diogelu rhag ymbelydredd ar gael yn y practis, ond yr oedd angen ei diweddaru o ran y gofrestr personél a swyddogaethau. Adolygwyd dogfennaeth a lleoliad peiriant pelydr-X panoramig. Rodd y lleoliad wedi ei ddynodi yn ardal reoledig, ond nid oedd y cyfarwyddiadau practis-benodol yn y rheolau lleol yn ddigonol, gan fod pedwar pwynt mynediad a ffenestr yn agos iawn at y peiriant. Rydym yn argymell y dylid adolygu'r cyfarwyddiadau hyn a'u diwygio er mwyn sicrhau y gweithredir y cyfarpar pelydr-X hwn mewn modd diogel. Yn ychwanegol, roedd y lle hwn yn cael ei ddefnyddio fel man chwarae posibl ar gyfer plant, gan fod teganau wedi'u lleoli ynddo. Rydym yn argymell na ddylid defnyddio'r lleoliad hwn fel man chwarae.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi eu gwasanaethu yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom nodi y dylid symud rhai o'r teganau a gedwir mewn man penodol yn y practis i rywle mwy addas a phellach oddi wrth y peiriannau pelydr-X. Daethom i'r casgliad fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol ar gael yn y practis i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid diweddaru'r ffeil diogelu rhag ymbelydredd; ac adolygu'r cyfarwyddiadau ynglŷn â'r peiriant pelydr-X panoramig a'u diweddaru gan gymryd i ystyriaeth yr holl risgiau a sut y gellir eu rheoli wrth weithredu'r peiriant.

Dylid symud y teganau ymhellach oddi wrth y peiriant pelydr-X panoramig

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Rhoddwyd gwybod inni fod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Dywedodd y staff wrthym y cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd, lle y cânt gyfle i drafod unrhyw bryderon.

Roedd rheolwr y practis a'r deintydd arweiniol yn frwdfrydig ynghylch datblygu'r gwasanaeth a ddarperir a sicrhau'r profiad deintyddol gorau posibl i'r cleifion.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd bod adolygu gan gymheiriaid yn digwydd yn rheolaidd yn y practis.

Roedd y prif ddeintydd yn edrych yn gyson ar ffyrdd o wella'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio a'u cynnal yn electronig, a chanfuom fod prosesau addas ar waith i sicrhau diogelwch gwybodaeth.

Sylwyd bod cofnodion hŷn, fodd bynnag, yn cael eu cadw mewn swyddfa ar y llawr cyntaf. Yn anffodus, ni chedwid y swyddfa honno yn ddiogel o dan glo pan na ddefnyddid hi. Rydym yn argymell y dylid cymryd camau priodol i ddiogelu cofnodion ysgrifenedig y cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid cadw cofnodion cleifion yn ddiogel bob amser

### Cadw cofnodion

Wrth adolygu sampl o gofnodion y cleifion, ein canfyddiad yn gyffredinol oedd bod ansawdd y nodiadau yn dda iawn. Canfuom, yn y cofnodion a welwyd, y cafwyd cydsyniad i roi'r driniaeth yn ystod pob ymweliad. Yn ychwanegol, sylwom fod trafodaethau ynghylch lefelau alcohol ac ysmygu wedi eu cofnodi fel rhan o'r drefn arferol. Fodd bynnag, yn ein sampl ni o gofnodion y cleifion, ni chofnodwyd yn gyson yr asesiad risg mewn perthynas â chanser y geg, nac ychwaith y cyfiawnhad dros ddefnyddio pelydr-X.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dogfennu'r asesiadau risg mewn perthynas â chanser y geg

Cyfiawnhad dros ddefnyddio pelydr-X.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae Warren Davies Dental Care yn bractis sefydledig. Y prif ddeintydd yw perchennog ac arweinydd y practis. Yn gyffredinol, roedd y practis yn cael ei reoli'n dda ac yn hyrwyddo natur agored. Roedd hyn yn amlwg mewn trafodaethau gyda'r staff, a oedd yn datgan y gallent drafod unrhyw bryderon gyda'r rheolwyr.

Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd a rheolwr y practis.

Cawsom gadarnhad fod aelodau'r tîm yn cael cyfle i ddilyn hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w gwaith a'u datblygiad.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Warren Davies Dental Care wedi bod yn darparu gwasanaethau yn ei leoliad presennol ers 26 blynedd.

Gwelsom dystiolaeth fod arweinyddiaeth y practis yn dda a'r llinellau atebolrwydd yn eglur. Nodwyd bod y staff yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd, a bod llawer ohonynt wedi bod yn gyflogedig yn y practis ers nifer o flynyddoedd. Dywedodd y staff wrthym yn ystod y trafodaethau eu bod yn hyderus y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda'r deintydd, rheolwr y practis neu unrhyw gorff priodol pe bai angen.

Roedd y deintyddion a phob un o'r staff yn amlwg yn ymrwymedig i ddarparu gofal a thriniaeth o safon i'w cleifion, a chafodd hyn ei ategu gan yr ystod o bolisïau a gweithdrefnau a oedd ar waith. Ar y pryd, roedd y practis wrthi'n mabwysiadu cyfres cwbl newydd o bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi llofnodi'r cyfryw bolisïau a gweithdrefnau i ddynodi eu bod wedi eu darllen ac yn deall eu cyfrifoldebau.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Roedd gan y rheolwr practis ddealltwriaeth eglur o anghenion y staff, ac ymrwymiad i ddiwallu'r anghenion hynny. Gwelsom dystiolaeth o raglen ymsefydlu staff. Roedd yr holl staff wedi cael mynediad i amrywiaeth o adnoddau hyfforddi a oedd yn hybu eu datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau bod arfarniadau o'r staff wedi eu cynnal mewn modd amserol ac ymatebol.

Dywedwyd wrthym y cynhelir cyfarfodydd staff bob pythefnos. Deallasom mai'r drefn arferol oedd peidio â dosbarthu copïau o'r agenda i'r staff cyn y cyfarfod. Rydym yn argymell y dylid dosbarthu agendâu ymlaen llaw, i alluogi'r staff i werthuso'r agenda a pharatoi yn unol â hi. Gwnaethom edrych ar gofnodion y cyfarfodydd staff. Prin oedd yr wybodaeth a oedd ar gael yn y cofnodion hyn, a oedd ar ffurf rhestr pwyntiau yn unig, a phrin oedd y dystiolaeth bod y staff yn dysgu o ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn. Er cydnabod mai cymharol fach yw'r tîm staff yn y practis hwn, rydym yn argymell, er mwyn hybu natur agored a thryloywder, y dylid cadw cofnodion manylach o'r cyfarfodydd hyn. Byddai modd wedyn i unrhyw staff a oedd yn absennol edrych ar y cofnodion a chael darlun crwn o'r pynciau a drafodwyd a'r trafodaethau a ddeilliodd ohonynt.

Canfuom fod y deintyddion a'r staff nyrsio wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yr yswiriant indemnio angenrheidiol. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio'n briodol rhag Hepatitis B, er mwyn diogelu cleifion a'r staff eu hunain rhag eu heintio.

Roedd y deintyddion yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a sylwyd bod eu tystysgrifau cofrestriad AGIC wedi eu harddangos mewn man amlwg fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid darparu agenda i'r staff cyn y cyfarfodydd, a dylai cofnodion y cyfarfodydd gynnwys rhagor o fanylion o'r trafodaethau a ddigwyddodd.

# 4. Beth nesaf?

Rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad sy'n gofyn i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn gymwys):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, er mwyn cadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â hwy.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at ddeuddeg wythnos o rybudd o arolygiad. Gwneir hyn er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cael ei gynnal yn ôl yr arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o aflonyddwch i gleifion â phosib.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

### Gwasanaeth: Warren Davies Dental Care

### Dyddiad yr arolygiad: 21 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion, a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith, sy'n wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Warren Davies Dental Care

**Dyddiad yr arolygiad:** 21 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle mae angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylid clymu biniau storio gwastraff clinigol wrth osodiadau sefydlog parhaol, i'w diogelu rhag y posibilrwydd o ladrad | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch<br>Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991<br>Rheoliadau | Cysylltu'r biniau â'i gilydd ac ynghlwm wrth y wal, gyda chadwyni | Warren Davies | 28 diwrnod |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyfarpar a'r holl stociau darfodus untro yn cael eu gwirio'r rheolaidd i sicrhau nad ydynt wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben.<br><br>Rhaid storio'r troli argyfwng yn ddiogel | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14(1)(d) | Gwirio dyddiadau'r holl stoc ddarfodus yn wythnosol<br><br>Storio'r troli mewn ystafell ddiogel | Cynthia Carver<br><br>Warren Davies | Ar unwaith<br><br>Ar unwaith |
| Selio o amgylch ymylon y gorchuddion lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol<br><br>Atgyweirio'r gorchudd llawr yn ystafell triniaeth ddeintyddol 2<br><br>Gosod droriau newydd / adnewyddu'r droriau yn ystafell triniaeth ddeintyddol 1<br><br>Gosod dolenni newydd / adnewyddu'r dolenni yn ystafell triniaeth ddeintyddol 2<br><br>Gweithredu archwiliadau rheoli heintiau prydlon yn unol ag WHTM01-05 | 4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadheintio<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008,<br><br>Rheoliad 14(6) | Gwneud gwaith adnewyddu<br><br>Aros i gael y ddogfen berthnasol o'r Ddeoniaeth | Warren Davies<br><br>Cynthia Carver | 3 mis<br><br>Ar ôl derbyn y ddogfen<br><br>Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dogfennu'r gwiriadau glanhau â llaw | | Cyflawnwyd eisoes | Cynthia Carver | |
| Rhaid i bob deintydd gael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel y pennir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | 2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008,<br>13(2) | Cofrestru'r holl staff presennol a newydd ar gyfer gwasanaeth diweddaru blynyddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, pan fydd angen adnewyddu'r tystysgrifau | Louise Begg | Ar droed |
| Dylid diweddaru'r ffeil diogelu rhag ymbelydredd; ac adolygu'r cyfarwyddiadau ynglŷn â'r peiriant pelydr-X panoramig a'u diweddaru gan gymryd i ystyriaeth yr holl risgiau a sut y gellir eu rheoli wrth weithredu'r peiriant.<br>Dylid symud y teganau ymhellach oddi wrth y peiriant pelydr-X panoramig | 2.9 Dyfeisiau meddygol, cyfarpar a systemau diagnostig<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, | Adolygu a diweddaru<br>Gwerthuso lleoliad y teganau | Warren Davies<br>Warren Davies | 3 mis<br>1 mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 14(1)(d) | | | |
| Rhaid cadw'r holl gofnodion cleifion yn ddiogel bob amser | 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu | Gosod clo cod ar ddrws yr ystafell lle'u cedwir | Warren Davies | 28 diwrnod |
| Dogfennu'r asesiadau risg mewn perthynas â chanser y geg<br><br>Cyfiawnhad dros ddefnyddio pelydr-X. | 3.5 Cadw Cofnodion<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008,<br><br>14(1)(b<br><br>Safonau'r | Cyflawni'r gwaith addysgu, dogfennu yn unol â'r rheoliadau | Warren Davies | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4 | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylid darparu agenda i aelodau'r staff cyn y cyfarfodydd staff, a dylai cofnodion y cyfarfodydd gynnwys rhagor o fanylion o'r trafodaethau a ddigwyddodd | 7.1 Y gweithlu | Agendâu i'w paratoi a'u dosbarthu cyn y cyfarfodydd – darpariaeth ar gyfer UFA yn y cyfarfodydd | Louise Begg | Ar unwaith |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Warren Davies**

**Swydd:** **Prif ddeintydd**

**Dyddiad:** **8 Ionawr 2018**